Credyd Cynhwysol yn taro pobl â phroblemau iechyd meddwl : BBC Cymru Fyw

Mae'r system Credyd Cynhwysol yn rhy gymhleth ac nid yw'n cynnig cefnogaeth i bobl sydd ddim yn ei ddeall, yn ôl cyfarwyddwr Mind Cymru.

Mae nifer o gwynion wedi bod ynglŷn â'r system newydd, ac yn ôl cyfarwyddwr Mind Cymru, Sara Moseley, mae angen datrys y sefyllfa "ar frys".

Dywedodd bod angen "ystyried anghenion iechyd meddwl mewn achosion perthnasol", a "chynnig rhagor o gefnogaeth wyneb-yn-wyneb".

Ychwanegodd Ms Moseley bod y taliadau'n rhy araf yn cyrraedd y rhai sy'n eu hawlio, a bod hynny'n achosi problemau iddynt:

> *"Os ydi pobl yn byw o'r llaw i'r genau p'run bynnag, mae gorfod aros er mwyn talu'r rhent, talu am fwyd, talu biliau – mae hynny'n gallu drysu eich bywyd yn llwyr."*

Darllen rhagor : BBC Cymru Fyw

- ERTHYGL: Arian ac iechyd meddwl